

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 27 EBRILL 2020, trwy Microsoft Teams.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Ms Meri Huws; Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMABer; Mrs Fiona Sharp (tan gofnod 71); Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer cofnodion 63 i 67).

57. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Covid-19

1. Ers y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd dwy alwad gynadledda i aelodau'r Cyngor ynglŷn ag ymateb y sefydliad i bandemig coronafeirws COVID-19 - ar 30 Mawrth a 09 Ebrill 2020. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn ystod y cyfarfod ar ddatblygiadau mwy diweddar, yn bennaf yn rhan o adroddiad yr Is-Ganghellor.
2. Adroddodd y Cadeirydd, fel Cadeirydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC), ar gyfarfod a gynhaliwyd ar lein yn ddiweddar rhwng aelodau CPC a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bu hyn yn gyfle addas i drafod ymateb pob sefydliad i bandemig coronafeirws COVID-19. Yn awr, roedd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu i aelodau CPC gyda'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC.

2. Dull cynnal y Cyfarfod

1. Bwriadwyd cyflwyno drafft o'r Strategaeth Ystadau i'r Cyngor yn y cyfarfod. Yng ngoleuni'r amgylchiadau, gofynnodd y Cadeirydd am gael gohirio trafodaeth ar y drafft tan y cyfarfod nesaf ar 10 Gorffennaf 2020.
2. Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly yn cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a eglurwyd ar y flaendalen.
3. Anogwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i drafod yn rhydd, fel y byddent yn gwneud pe na bai'r cyfarfod ar-lein. Cyn y sesiwn, cafodd cyfarwyddyd cryno ei ddsbarthu i aelodau ynglŷn ag arferion gorau yn ystod cyfarfodydd ar-lein.

4. Ni fydd modd darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod hwn. Ond, os oedd aelod yn cyfrannu i'r cyfarfod yn Gymraeg, byddai'r sylwadau'n cael eu crynhoi yn Saesneg gan y cyfieithydd ar ôl i'r siaradwr orffen.

3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Abbi Andreou, myfyrwraig ail flwyddyn yn Yr Ysgol Fusnes;
2. Syr John Houghton, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol;
3. Aneurin Rhys Hughes, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol; a
4. Gwydion Morris, myfyriwr ail flwyddyn yn yr Adran Gyfrifiadureg.

4. Marwolaethau Myfyrwyr

Roedd y Crwner yn cynnal Cwest i farwolaethau'r myfyrwyr, ac roedd y Brifysgol yn dilyn y gweithdrefnau arferol ynglŷn â hyn. Byddai'r Is-Ganghellor yn rhoi diweddariad i aelodau'r Cyngor pan fyddai'r cwestau perthnasol wedi eu cynnal (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

5. Penodi Aelodau i'r Cyngor

1. Roedd y broses o benodi Aelodau Annibynnol newydd ar y Cyngor wedi dechrau. Y bwriad oedd cytuno ar restr fer o ymgeiswyr ar 19 Mai 2020, a chynnal cyfweiliadau ar 01 Mehefin. Oherwydd yr amgylchiadau, mae'n debygol y newidir yr amserlen.
2. Pe gellid cynnal cyfweiliadau cyn diwedd mis Gorffennaf 2020, gofynnid i'r Cyngor gymeradwyo'r penodiadau a argymhellir trwy ohebiaeth. Fel arall, ystyrid y posibilrwydd o gytuno i ymestyn telerau'r aelodau hynny a oedd yn dod i ben eu tymhorau ar y Cyngor ar 31 Gorffennaf.

58. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

59. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020, (COU1920-100).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

60. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1920-101).

NODWYD

1. Adroddiad yr Is-Ganghellor (cofnod 47.4)

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor, dywedodd yr Is-Ganghellor ei bod wedi cymryd camau i gadarnhau na chafodd unrhyw Gytundebau Peidio â Datgelu eu llofnodi gan y Brifysgol ers 2016 y tu hwnt i drefniadau arferol dileu swyddi.

2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

61. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-102).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2018-19, i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol erbyn 31 Mawrth 2020; a
 2. Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-24, i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol erbyn 31 Mawrth 2020.
3. Y mater a gymeradwywyd gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu oedd:
 1. Cais y Brifysgol i'r Cyngor Cyllido am Gynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2021-22, ar argymhelliad Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

62. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

63. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1920-103).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Cafodd y sector addysg uwch ei annog gan lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i fanteisio ar y cynlluniau cymorth ariannol cyffredinol a ddarparwyd gan Drysorlys y DU i ymateb i bandemig COVID-19. Roedd y Brifysgol felly yn rhoi staff perthnasol ar gyfnod ffyrlo. Yn y lle cyntaf, byddai'r Brifysgol yn ychwanegu at y gyfran a roddir gan Drysorlys y DU er mwyn sicrhau y bydd pob un yr effeithir arnynt yn cael 100% o'u cyflog arferol.
3. Caniatawyd i'r sector adeiladu barhau i weithio yn ystod y cyfnod clo cyfredol, cyhyd â bod camau'n cael eu sefydlu ar safleoedd adeiladu i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol. Roedd prosiectau cyfalaf y Brifysgol yn mynd yn eu blaen felly, a dim ond ychydig oedi a fu o ganlyniad i ffactorau allanol.
4. Mae ceisiadau a derbyniadau cadarn gan fyfyrwyr i gael mynediad ym mis Medi 2020 yn dal yn gryf, a chafwyd nifer sylweddol o geisiadau i fyw ym Mhantycelyn ers i'r cyfnod archebu agor ar 01 Ebrill 2020. Gofynnodd yr aelodau a fyddai rhai myfyrwyr yn penderfynu gohirio dechrau ar eu hastudiaethau prifysgol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Er bod hyn yn bosibl, nid oedd yn glir beth y gallai'r myfyrwyr hynny ei wneud yn y cyfamser gan y gallai cyfle am waith neu gyfle i deithio fod yn gyfyngedig.
5. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn gweithio trwy wahanol senarios ar gyfer dechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf. Byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y broses fel sy'n briodol. Byddai'r ymarferiad cynllunio senario yn galluogi'r Brifysgol i gyfathrebu ag ymgeiswyr a myfyrwyr cyfredol ar adeg addas.
6. Roedd y sefydliad hefyd yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Chyngor Sir Ceredigion i sefydlu pa drefn ar gyfer pellter cymdeithasol a phrofion y gellid bod eu hangen, pan a phryd bynnag y bydd y Brifysgol yn ailddechrau gweithgareddau ar y campws, er mwyn rhoi hyder i fyfyrwyr, eu rhieni, staff a'r gymuned leol.
7. Diolchodd yr aelodau i'r Is-Ganghellor am y diweddariad manwl, a chynnig pob cefnogaeth iddi hi a Gweithrediaeth y Brifysgol wrth iddynt arwain ymateb y Brifysgol i'r argyfwng COVID-19.

64. DIWEDDARIAD ARIANNOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Stephen Forster (COU1920-106).

NODWYD

1. Cyflwynai'r adroddiad yr effaith y rhagwelir y bydd argyfwng Covid-19 yn ei chael ar gyllid y Brifysgol am y flwyddyn ariannol tan 31 Gorffennaf 2020, a'r effeithiau posibl ar gyllideb a thybiaethau cynllunio blwyddyn ariannol 2020-21, a ddatblygwyd cyn dechrau'r pandemig.
2. Trafododd yr aelodau'r adroddiad yn fanwl, ac wrth wneud hynny dywedwyd wrthynt fod gwall teipio yn yr adroddiad wedi golygu bod y golled a ragwelwyd yn yr incwm masnachol 10 gwaith yn uwch na'r hyn a ddisgwyliid mewn gwirionedd.
3. Mae cyflawni'r cynilion ariannol rheolaidd a dargedwyd yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) yn golygu bod y Brifysgol mewn sefyllfa gadarnach na rhai o'i chystadleuwyr. Roedd digon o yswiriant llif arian yn cael ei broffwydo yn y tymor byr, ac

roedd y sefydliad mewn trafodaethau â banc NatWest yng nghyswllt yr Adnodd Credyd Cylchdroawl. Roedd yr ymatebion cychwynnol gan y banc yn ymddangos yn gefnogol.

4. Er bod gan y Brifysgol ychydig o yswiriant ar gyfer clefydau hysbysadwy, ni chredai'r yswiriwr y gellid gwneud hawliad oni bai bod achos o Covid-19 wedi bod ar y campws, a chostau ychwanegol wedi deillio o hynny.
5. Gofynnodd yr aelodau a fyddai gan y cwmpadau diweddar yn y marchnadoedd stoc oblygiadau i fuddsoddiadau a chronfeydd gwaddol y sefydliad. Nid oedd y Brifysgol yn rhagweld y byddai angen dad-fuddsoddi cronfeydd ar hyn o bryd, a'r gobaieth oedd felly y byddai'r gwerthoedd yn cael eu hadfer ychydig yn y tymor canolig. Byddai gan gyfnod hir o golli gwerth oblygiadau hefyd i ddiffygion gwahanol gronfeydd pensiwn y mae'r sefydliad yn rhan ohonynt, a allai arwain at daliadau uwch i adfer diffygion ymhen amser.
6. Byddai'r adran Gyllid yn ystyried oblygiadau ariannol yr amrywiol senarios sy'n cael eu modelu gan Weithrediaeth y Brifysgol, er ei bod yn annhebygol iawn y byddai costau ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod. Er bod gan y Brifysgol eisoes y gallu i ddarparu peth addysgu ar-lein, byddai cyfnod estynedig o bellter cymdeithasol yn gofyn am ragor o fuddsoddi yn y maes hwn.
7. Disgwylid gwybodaeth am unrhyw gymorth ariannol i'r sector gan y llywodraeth dros yr wythnosau nesaf, a byddai hynny'n effeithio ar ddatblygiad drafft cyllideb y Brifysgol am 2020-21, a oedd i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor i'w gymeradwyo.

65. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1920-104).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) ar 19 Mawrth 2020, ac yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau iechyd a diogelwch ymateb y sefydliad i'r pandemig Covid-19.
2. Roedd digwyddiadau diweddar wedi pwysleisio pwysigrwydd cael trefniadau cynhwysfawr yn eu lle ar gyfer parhad busnes. Dywedodd yr Is-Ganghellor wrth y Cyngor bod Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cytuno ar gynllun cynhwysfawr ar gyfer parhad busnes yn ystod mis Tachwedd 2019, a'i fod yn hanfodol wrth lywio ymateb y sefydliad i'r pandemig Covid-19 hwn. Cyflwynir adroddiad ar drefniadau parhad busnes y Brifysgol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor LI&Ch (**GWEITHREDU**: Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

66. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) (COU1920-105).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Er bod UMAber ac UMCA wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau llwyddiannus ddechrau mis Mawrth 2020, roedd y rhai a drefnwyd i'w cynnal yn fwy diweddar wedi gorfod cael eu canslo oherwydd y cyfnod clo yn dilyn argyfwng Covid-19. Ers hynny bu UMAber yn edrych am gyfleoedd i gynnal rhith ddiwyddiadau i fyfyrwyr.
3. Roedd llywyddion UMAber ac UMCA yn croesawu'r cydweithio agos a fu rhwng Gweithrediaeth y Brifysgol ac UMAber i ddatblygu darpariaethau a roddwyd ar waith yn ddiweddar i gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig. Roedd myfyrwyr yn rhoi gwybod eu bod yn cael cefnogaeth gan y Brifysgol ac adrannau academiaidd, ac fe gafodd hyn ei groesawu gan aelodau'r Cyngor.
4. Roedd gan UMAber bryderon bod landlordiaid preifat lleol yn afresymol gyda myfyrwyr sy'n denantiaid iddynt yn ystod y cyfnod clo. Mynegodd aelodau'r Cyngor eu cefnogaeth i'r camau sy'n cael eu cymryd gan UMAber i sicrhau bod myfyrwyr denantiaid yn ymwybodol o'u hawliau yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

67. Y CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC): ADRODDIAD CAU PEN MWDWL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU1920-107).

NODWYD

1. Dechreuwyd y CGC ym mis Ebrill 2017, er mwyn creu gwelliannau strategol mewn tair prif ffrwd: arbedion trwy newidiadau, gyda tharged o £11.4m mewn cynilion rheolaidd; datblygu gweledigaeth strategol; a darparu cynllun strategol hirdymor i'r Brifysgol. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2020, cytunodd y Cyngor i gau'r rhaglen CGC yn ffurfiol gan fod y targedau ariannol wedi eu cyrraedd.
2. Yn unol ag arfer da, cynhaliwyd adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' yng nghyswllt y Cynllun, a gofynnwyd am gyfraniadau gan y prif randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Roedd y canfyddiadau wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad a chawsant eu trafod gan yr aelodau.
3. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor LI&Ch ar 19 Mawrth 2020 lle'r oedd yr aelodau wedi awgrymu rhai newidiadau yn gysylltiedig â chynnal y ddarpariaeth academiaidd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i roi amlinelliad gwell o'r adborth oddi wrth yr undebau llafur yn y crynodeb cyffredinol. Ers hynny paratowyd fersiwn ddiwygiedig i'w hystyried gan y Cyngor.
4. Roedd y CGC cychwynnol eisoes yn cael ei ddatblygu erbyn i'r Is-Ganghellor ddechrau yn ei swydd yn y Brifysgol, er mai hi a ffurfiodd datganiad y weledigaeth a oedd yn tywys cyfeiriad y CGC. Ers hynny adeiladwyd ar y weledigaeth honno yn rhan o'r Cynllun Strategol ar gyfer 2018-23, a fyddai'n tywys cyfnod nesaf datblygiad y sefydliad.
5. Roedd y camau gweithredu a gynigiwyd mewn ymateb i'r adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' eisoes yn cael eu symud ymlaen trwy gyfrwng mentrau presennol. Byddai adrodd pellach ar y camau gweithredu'n cael ei wneud yng nghyd-destun y cynlluniau hynny yn hytrach na'r CGC.

6. Yn ddiweddar, roedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wedi cyhoeddi erthygl a adolygir gan gymheiriaid yng nghyfnodolyn y Gymdeithas Gweinyddwyr Prifysgolion am ei brofiad o arwain y CGC yn ei swyddogaeth flaenorol yn Gyfarwyddwr Datblygiad Strategol. Awgrymodd yr aelodau y gallai'r erthygl hon fod yn sail i erthygl bellach ar ganfyddiadau ymarferiad yr arolwg 'gwersi a ddysgwyd'.

68. LLYWODRAETHU YNG NGHYMRU: CYNLLUN GWEITHREDU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-108).

NODWYD

1. Ar 19 Chwefror 2020, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Gillian Camm o Lywodraethu yng Nghymru (*Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru*) ynghyd ag ymateb unfrydol y sector (ar ffurf *Siarter Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru* a chynllun *Ymrwymiad i Weithredu*).
2. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Camm, a chynllun *Ymrwymiad i Weithredu* y sector, roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi paratoi drafft cychwynnol o gynllun gweithredu i Brifysgol Aberystwyth. Ymgynghorwyd â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor wrth ddatblygu'r drafft cychwynnol, a gofynnwyd hefyd am adborth gan gadeiryddion prif is-bwyllgorau'r Cyngor.
3. Cafodd y cynllun gweithredu arfaethedig ei ystyried gan y Pwyllgor LI&Ch ar 19 Mawrth 2020. Wrth groesawu dull sector-cyfan, roedd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch wedi rhybuddio bod profiadau sectorau eraill yn awgrymu y gallai mabwysiadu *Siarter Llywodraethu* ar sail egwyddorion ar lefel genedlaethol ei gwneud yn fwy heriol i ddangos cydymffurfiaeth ar lefel sefydliadol. Cadarnhawyd gan Gadeirydd y Cyngor bod y sector yn hapus â dull o'r fath.
4. Trafododd yr aelodau'r cynllun gweithredu lefel prifysgol arfaethedig gan groesawu'r gwaith manwl a wnaed hyd yn hyn. Nodwyd yn benodol y cynnig y dylai Aelodau Annibynnol ar y Cyngor wasanaethu am dymor o 'bedair blynedd a hyd at bedair blynedd'; a'r cynnig i ailgyflwyno'r Pwyllgor Enwebiadau.

PENDERFYNWYD

5. Mabwysiadu cynllun gweithredu Prifysgol Aberystwyth yn ôl y drafft cyfredol, a byddai diweddariadau ynglŷn â'i weithredu yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor LI&Ch ddwywaith y flwyddyn (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

69. POLISI DIOGELU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a'r Profiad Myfyriwr); a Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol (COU1920-109).

NODWYD

1. Cafodd Polisi Diogelu newydd sbon ei ddatblygu i ddisodli'r polisi presennol, a oedd wedi hen ddyddio. Yn ogystal ag adlewyrchu strwythur cyfredol y Brifysgol, roedd y

Polisi drafft hefyd yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau deddfwriaethol diweddar. Mae'r drafft yn destun ymgynghori eang, gan gynnwys â chynrychiolwyr undebau llafur.

2. Ystyriwyd drafft y Polisi Diogelu gan y Pwyllgor LI&Ch ar 19 Mawrth 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo yn amodol ar un mân ddiwygiad i gynnwys hawliau unigolion yng nghyswllt y Gymraeg o dan 'Amcanion Polisi'. Ers hynny cafodd yr adroddiad ei ddiwygio yn unol â hyn.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft y Polisi Diogelu, yn amodol ar ddiwygiad i dynnu sylw at yr angen i unigolion gael cymeradwyaeth moeseg ymchwil cyn dechrau ar unrhyw ymchwil y gallai fod ystyriaethau diogelwch iddo (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol).

70. ADRODD I'R COMISIWN ELUSENNAU AM DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori drafft o Fframwaith ar gyfer rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol (COU1920-110).

NODWYD

1. Fel elusen gofrestredig, rhaid i'r Brifysgol roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol. Bu Ysgrifennydd y Brifysgol felly yn gweithio i ddatblygu Fframwaith - i'w gytuno gan y Cyngor - a fyddai'n rhoi arweiniad ynglŷn â'r math o ddigwyddiadau difrifol i adrodd yn eu cylch.
2. Cafodd dwy fersiwn o'r Fframwaith arfaethedig eu cyflwyno i'r Pwyllgor LI&Ch, ar 07 Tachwedd 2019 a'r 19 Mawrth 2020. Datblygwyd yr ail fersiwn gan gyfeirio at brofiad prifysgol arall yng Nghymru o ymwneud â'r Comisiwn Elusennau ynglŷn ag adrodd am ddigwyddiadau difrifol, a chyngor gan gynghorwyr cyfreithiol y Brifysgol ei hun.
3. Ar 19 Mawrth 2020, argymhellodd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch y dylai fersiwn y Fframwaith a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwnnw gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Fframwaith a gynigiwyd ar gyfer rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

71. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU1920-111).

NODWYD

Cyflwynai'r adroddiad bwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

72. PENODI ARCHWILWYR ALLANOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1920-112).

NODWYD

1. Yn dilyn ymarfer caffael yn 2018, dyfarnwyd tendr tair blynedd a hanner i KPMG i ddarparu gwasanaethau Archwilio Allanol. Serch hynny mae'n rhaid i'r Cyngor benodi'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol bob blwyddyn.
2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 03 Ebrill 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar benodiad yr Archwilwyr Allanol.

PENDERFYNWYD

4. Penodi KPMG yn Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2020, ar y ffi a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

73. AELODAETH Y PWYLLGOR BUDDSODDIADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-113).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2019, cytunodd y Pwyllgor Buddsoddiadau i argymhell i'r Cyngor y dylid ailbenodi cynrychiolydd myfyrwyr yn aelod o'r Pwyllgor Buddsoddiadau. Roedd y diwygiad arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer yr ychwanegiad hwn wedi ei nodi yn yr adroddiad.
2. Yn yr un modd â'r lleoedd gwag i fyfyrwyr ar is-bwyllgorau llywodraethu eraill, gwahoddir UMABer i enwebu un o'u swyddogion sabothol i wasanaethu.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r ychwanegiad a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Pwyllgor Buddsoddiadau (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

74. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1920-114);
2. Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg (COU1920-115);
3. Adroddiadau'r Arholwyr Allanol 2018/19 (COU1920-116);
4. Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol 2018-19 (COU1920-117);

5. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Apeliadau ac Adolygiadau Terfynol (COU1920-118); a
6. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1920-119);

NODWYD

7. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

75. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1920-120):

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (19 Mawrth 2020);
2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (19 Mawrth 2020);
3. Y Senedd (1 Ebrill 2020); a
4. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (03 Ebrill 2020)

NODWYD

5. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.